Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 329 – 21 Ionawr 2010
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 328
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 328.

2. Adroddiad yr Is-gadeirydd

Cyflwynodd ED ei hadroddiad yn absenoldeb y Cadeirydd.

Nododd bod y Cadeirydd wedi llongyfarch Menna Richards ar dderbyn anrhydedd yr OBE yn ddiweddar.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Cyfeiriodd at Bapur yn cyflwyno gwybodaeth bellach am ddatblygu gwasanaeth S4C2.
Esboniodd y gallai S4C Digidol fod yn wasanaeth 24 awr o fewn ei phwerau statudol presennol.

S4C2
Cyflwynodd IJ yr argymhellion parthed gwasanaeth S4C2.

Cynllun Iaith Gymraeg drafft
Cyflwynwyd y Cynllun Iaith Gymraeg drafft. Esboniodd IJ fod y ddogfen yn seiliedig ar gynllun presennol S4C.

Yn dilyn y drafodaeth cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg.

Polisi Anabledd
Esboniwyd fod y polisi yn berthnasol i weithgareddau S4C ac eithrio cynnwys rhaglenni. Cymeradwywyd y Polisi.

Cynllun Gweithredu Anabledd
Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ac esboniwyd bod hyrwyddo delwedd bositif o bobl anabl yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth ar-sgrin.

Cynllun gweithredu blynyddol 2009
Cyflwynwyd y cynllun gweithredu blynyddol, ac esboniwyd bod swyddogion yn credu y dylid dyrchafu'r math hyn o wybodaeth am wasanaethau S4C yn yr Adroddiad Blynyddol.

Newid i Ddigidol
Cyflwynwyd diweddariad o'r Gofrestr Risg yn ymwneud a phroses y newid i ddigidol.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Cynllun Corfforaethol 2010
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil